CfER 06/10/2014
Papur i'w Nodi

**Cyngor Adnewyddu'r Economi**

**Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
Diweddariad ar rôl y GIG fel busnes angor**

## CEFNDIR

1. Mae Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru yn gynllun statudol o dan adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n amlinellu sut y bydd Gweinidogion Cymru yn bwriadu ystyried buddiannau busnes wrth gyflawni eu swyddogaethau.

2. Mae'n rhaid i'r Cynllun Busnes nodi sut mae Gweinidogion Cymru'n bwriadu –

   a) cynnal ymgynghoriad am gyflawni eu swyddogaethau fel y maent yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar fuddiannau busnes; ac

   b) ystyried effaith cyflawni eu swyddogaethau ar fuddiannau busnes.

3. Mae'r Cynllun Busnes hefyd yn amlinellu sut y bydd y Llywodraeth yn ymgysylltu'n rhagweithiol â phartneriaid cymdeithasol wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth. Diffinnir 'partneriaid cymdeithasol' yn y cynllun fel sefydliadau sy'n cynrychioli busnes a chyflogwyr.

4. Mae'r Prif Weinidog yn cadeirio Cyngor Adnewyddu'r Economi, sy'n llywio'r gwaith hwn, a hefyd yn ariannu Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, sy'n cefnogi gweithgarwch ymgysylltu partneriaid cymdeithasol.

## DIBEN A CHYNNWYS Y PAPUR HWN

5. Yn dilyn cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi ar 2 Mehefin ac ystyried ffurflenni adrannol Llywodraeth Cymru ar gynllun busnes Gweinidogion Cymru, gofynnodd y Ffederasiwn Busnesau Bach am 'Ddiweddariad gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar rôl y GIG yng Nghymru fel busnes angor.' Nodwyd mai'r meysydd i'w hystyried oedd:

   a) Cyfraniad GIG Cymru i economi Cymru
   b) Caffael
   c) Gallu'r GIG i ddefnyddio technoleg er budd economaidd

## STRWYTHUR GIG CYMRU

6. GIG Cymru yw’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gyfer Cymru a ariennir gydag arian cyhoeddus. Mae’n darparu gofal iechyd i tua 3 miliwn o bobl sy’n byw yng Nghymru. Prif egwyddor y GIG yw y dylai gofal iechyd da fod ar gael i bawb, waeth beth fo’u sefyllfa ariannol.

7. Caiff gwasanaethau gofal iechyd GIG Cymru eu darparu’n lleol gan saith Bwrdd Iechyd Lleol, ac yn genedlaethol gan dair Ymddiriedolaeth GIG.

## GIG CYMRU FEL BUSNES ANGOR

8. Diffinnir Cwmni Angor yng Nghymru fel a ganlyn:

   - cwmni sy’n sefydliad byd-eang neu ryngwladol; a
   - chwmni sydd â phencadlys neu bresenoldeb corfforaethol sylweddol yng Nghymru.

9. Mae gan GIG Cymru yr un nodweddion â chwmni angor o ran proffil, presenoldeb yng Nghymru ac effaith economaidd. Fodd bynnag, gan nad yw GIG Cymru yn gweithredu yn yr un ffordd â busnes sy’n masnachu yn y sector preifat, ni ellir ei ystyried fel Cwmni Angor ar yr un telerau.

10. Fodd bynnag, gellir ystyried GIG Cymru fel Busnes Angor cyfwerth, yn sgil y nodweddion canlynol:

    - proffil byd-eang, pencadlys yng Nghymru a phresenoldeb corfforaethol sylweddol yng Nghymru;
    - yr un effaith economaidd â busnes mawr iawn o ran cyflogaeth a’r gadwyn gyflenwi;
    - y potensial o gael effaith economaidd-gymdeithasol ehangach mewn meysydd fel ymchwil a datblygu, arloesi, a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

11. Er na ellir cydnabod GIG Cymru fel Cwmni Angor yn ffurfiol, mae Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn bwriadu mabwysiadu’r un dull partneriaeth strategol gyda GIG Cymru ag a fyddai gyda Chwmni Angor yng Nghymru. Bydd gan GIG Cymru Gyfarwyddwr Cyfrif a Rheolwr Cyfrif penodol felly a phroses ymgysylltu strwythuredig mewn meysydd yn cynnwys hyfforddiant, arloesi a datblygu’r gadwyn gyflenwi.

## A) CYFRANIAD GIG CYMRU I ECONOMI CYMRU

12. Mae tua 43% o gyllideb Llywodraeth Cymru'n cael ei gwario ar iechyd a gofal cymdeithasol, gyda £6.5 biliwn wedi'i wario ar iechyd a £1.5 biliwn wedi'i wario ar ofal cymdeithasol yn 2013/14.

13. GIG Cymru yw cyflogwr mwyaf Cymru, yn cyflogi dros 72,000 o bobl, sydd tua 5% o'r holl bobl sy'n gweithio yng Nghymru.

| | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Staff meddygol a deintyddol** | 5,637 | 5,725 | 5,844 | 5,908 | 6,072 |
| **Staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd** | 28,185 | 28,157 | 27,979 | 28,068 | 28,254 |
| **Staff gweinyddol, ystadau** | 16,068 | 15,471 | 15,192 | 15,039 | 15,120 |
| **Staff gwyddonol/therapiwtig/technegol** | 11,264 | 11,506 | 11,471 | 11,549 | 11,616 |
| **Cynorthwywyr gofal iechyd a staff cymorth** | 9,926 | 10,033 | 9,718 | 9,793 | 9,699 |
| **Staff ambiwlans** | 1,402 | 1,427 | 1,457 | 1,510 | 1,499 |
| **Staff anfeddygol arall** | 293 | 166 | 172 | 133 | 131 |
| **Cyfanswm Staff y GIG** | **72,778** | **72,487** | **71,836** | **72,002** | **72,393** |

(ffynhonnell: StatsCymru)

14. Mae 14% o gyflog wythnosol gros Cymru yn mynd i weithwyr GIG Cymru. Dyma'r gyfran o'r gyflogaeth genedlaethol ac mewn rhai economïau, yn enwedig cefn gwlad Cymru, mae'r gyfran a gyflogir gan y GIG yn sylweddol uwch.

| Cyfanswm Cyflog Wythnosol Gros ar gyfer swyddi gweithwyr[a]: Cymru, 2013 | Cyfanswm (£000au) |
|---|---|
| Gweithwyr GIG Cymru[b] | £67,155 |
| Gweithwyr Cymru | £472,656 |
| **Cyfran** | **14.2%** |

(ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)
Swyddi Gweithwyr: ar gyfraddau oedolion gyda chyflog heb ei effeithio gan absenoldeb salwch.
Gweithwyr GIG Cymru: gweithwyr gofal iechyd dynol a gyflogir gan fenter llywodraeth ganolog.

**Effaith gwariant staff GIG Cymru ar economi Cymru**

15. Gallwn adeiladu ar y gwariant gros ar gyflogaeth GIG Cymru (fel cyfran o'r cyfanswm cenedlaethol) drwy ddefnyddio lluosyddion economaidd i asesu effaith gyffredinol y gwariant ar economi Cymru. Cafwyd y lluosyddion isod o gyhoeddiad gan yr Uned Ymchwil i Economi Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd: *Input/Output tables for Wales* (*Jones, Bryan, Munday a Roberts, 2010)*.

**Lluosyddion Gwariant (Allbwn) a Chyflogaeth (Mathau I a II)**

| | Gwariant (Allbwn) | | Cyflogaeth | |
|---|---|---|---|---|
| **Diwydiant** | **Math I** | **Math II** | **Math I** | **Math II** |
| Addysg ac iechyd | 1.41 | 1.68 | 1.35 | 1.57 |

16. Gellir defnyddio'r lluosyddion gwariant (allbwn) gyda chyfanswm gwariant iechyd a gofal cymdeithasol i gael syniad o effaith economaidd y gwariant hwnnw. Yn yr un modd, gellir defnyddio'r lluosydd cyflogaeth i weld faint o swyddi Cymru sy'n cael eu cefnogi gan bob person a gyflogir yn y GIG.

17. Mae'r lluosyddion "math I" yn adlewyrchu gwariant sefydliadau ar fewnbynnau a gafwyd yng Nghymru, a lluosyddion "math II" yn ychwanegu gwariant gan weithwyr ar nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru at hyn. Mae defnyddio'r lluosyddion hyn gyda chyfanswm gwariant iechyd a gofal cymdeithasol (llai gwariant nad yw'n wariant staff y tu allan i Gymru) a niferoedd staff iechyd yn rhoi'r amcangyfrifon o effaith economaidd a chyflogaeth a nodir yn nhabl 1.3 isod.

18. Nid yw'r effaith lluosydd hwn yn unigryw i iechyd a gofal cymdeithasol, felly mae effeithiau lluosydd tebyg yn deillio o gategorïau eraill o wariant sector cyhoeddus a chyflogaeth yng Nghymru.

| | **Lluosydd – Gwariant** | | **Lluosydd – Cyflogaeth** | |
|---|---|---|---|---|
| **Thema** | *Math I* | *Math II* | *Math I* | *Math II* |
| Gwariant Iechyd Cymru<br><br>(£7.4 biliwn) | Lluosydd x 1.41<br><br>= **£10.4 biliwn** | Lluosydd x 1.68<br><br>= **£12.4 biliwn o effaith** | | |
| Cyflogaeth Iechyd Cymru<br><br>(72,400) | | | Lluosydd x 1.35<br><br>= **97,700 o swyddi** | Lluosydd x 1.57<br><br>= **114,600 o swyddi** |


19. Yn ogystal, mae cyflogaeth yn y sector preifat yn cael ei chefnogi gan gyllid y llywodraeth y tu allan i GIG Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys swyddi ym maes gofal preswyl, nyrsio a chartref. Nid oes ystadegau swyddogol ar gyfer nifer y swyddi a gefnogir yn y modd hwn ar hyn o bryd.

**Effaith economaidd 'iechyd' GIG Cymru**

20. Yn ogystal ag effeithiau economaidd uniongyrchol a lluosydd, mae darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithiol yn sicrhau effeithiau economaidd sy'n ymwneud ag 'iechyd' gan fod poblogaeth iachach yn arwain at fwy o weithgarwch economaidd, gwell cyfalaf cymdeithasol gostyngiad yn effeithiau a chanlyniadau tlodi.

**Gwaith a wneir gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd sy'n cyfrannu at dwf economaidd yng Nghymru**

21. Mae tabl 1.4 isod yn crynhoi sut mae darpariaeth gofal iechyd yn effeithio ar yr economi yng Nghymru o dan bedwar maes allweddol.




**Arloesedd: cysylltu amcanion iechyd a chyfoeth**

22. Sefydlwyd *Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles* yn 2012 i helpu i gyflymu datblygiadau arloesol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol, ychwanegu gwerth at y dasg o nodi a gweithredu arloesedd drwy'r system gyfan a mabwysiadu a lledaenu arferion gorau, technolegau trawsnewidiol, modelau gwasanaeth a darpariaeth yn gyflym.

23. Mae swyddogion yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu argymhellion polisi yn seiliedig ar yr *Argymhellion Iechyd a Chyfoeth* a wnaed gan y Bwrdd. Nod yr argymhellion yw sicrhau bod ein gwariant ar ofal iechyd yn cael yr

effaith economaidd orau bosibl drwy gydweithio sydd â mwy o ffocws ac wedi'i dargedu'n well rhwng y GIG, diwydiant, y byd academaidd a'r llywodraeth.

24. Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio ar draws y llywodraeth gyda thimau Gwyddorau Bywyd, Arloesedd a Gwyddoniaeth EST, yn ogystal â'r Ganolfan Gwyddorau Bywyd. Er enghraifft, mae'r gwaith trawsadrannol hwn yn cynnwys cyfrannu at adolygiad o Reoli a Masnacheiddio Eiddo Deallusol yng Nghymru, a gomisiynwyd i gefnogi strategaeth *Arloesi Cymru*. Bydd yr adolygiad yn ystyried rôl y GIG o ran cefnogi'r math hwn o arloesi, law yn llaw â'r sector addysg uwch a'r sector preifat.

**Canolfannau Arloesi: dod â phartneriaid academaidd, busnes a chlinigol at ei gilydd**

25. Canolfan ragoriaeth newydd gwerth £4 miliwn yw'r Ganolfan Arloesi ym maes Gwella Clwyfau sy'n gweithio ym maes atal a thrin clwyfau gyda'r ddau nod o sicrhau manteision iechyd a chyfoeth i bobl Cymru. Mae'r Ganolfan yn darparu model i ddod ag academyddion a chlinigwyr at ei gilydd gyda phobl o fyd busnes – gan adlewyrchu'r cyfle a'r gwerth sydd i bawb o wneud ein gwasanaethau iechyd yn well yn ogystal â meithrin arloesedd.

26. Mae yna fentrau eraill tebyg fel Canolfan Arloesi Bill Mapleson sydd wedi'i lleoli yn Flexicare, Aberpennar. Menter anaesthetig yw hon lle mae Prifysgol Caerdydd, clinigwyr a diwydiant yn cydweithio er mwyn sicrhau arloesedd a gwelliannau.

**Cyllid arloesi: Rhaglenni cyllid yr UE**

27. Mae yna gyfleoedd i fanteisio ar raglenni cyllid yr UE a rhai rhyngwladol sy'n cefnogi gwaith ymchwil ac arloesi. Er enghraifft, yn ddiweddar llwyddodd Bwrdd Addysgu Iechyd Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gael bron i £1.5 miliwn o raglen gyllido Ewropeaidd gystadleuol i gefnogi'r defnydd o dechnoleg ddigidol. Yn ogystal â chyllid, mae hyn yn eu galluogi i gymryd rhan mewn rhaglenni cydweithredol rhyngwladol a'u rhoi mewn cysylltiad â grŵp o sefydliadau tebyg ac arweinwyr ym myd arloesi.

28. Mae rhaglen gyllido ymchwil ac arloesi gyfredol *Horizon 2020* yn cynnwys o leiaf £10 biliwn sy'n berthnasol i iechyd a gofal. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r GIG, gofal cymdeithasol, y byd academaidd a busnesau i gynyddu nifer y grantiau a geir o'r rhaglenni cystadleuol hyn.

**Dynodiad fel Bwrdd Iechyd Prifysgol**

29. Mae chwech o saith Bwrdd Iechyd Lleol GIG Cymru yn Fyrddau Iechyd Prifysgol dynodedig, sy'n darparu fframwaith i'w rôl yn cefnogi gwaith ymchwil, addysgu ac arloesi. Bydd hyn yn ategu'r gydnabyddiaeth i GIG fel Busnes Angor. Mae'r dynodiad hwn yn gam pwysig i gynyddu lefel ymgysylltiad y Byrddau Iechyd Prifysgol â diwydiant, ac yn dangos eu hymrwymiad i ddefnyddio gwybodaeth i wella gwasanaethau gofal iechyd a chreu gwerth economaidd.

## B) CAFFAEL

30. Mae GIG Cymru yn gwario'r rhan fwyaf o'i chyllideb ar gyflogau staff, ond mae hefyd yn caffael amrywiaeth eang o gynhyrchion a gwasanaethau.

**Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi**

31. Yn ystod 2013, nododd 'Gweithgor Economi Iechyd' trawsadrannol bod caffael yn faes oedd â photensial i wella effaith economaidd. Comisiynwyd adolygiad o drefniadau caffael a chadwyn gyflenwi'r GIG yn gynharach eleni, a fydd yn cyflwyno argymhellion yr hydref hwn ar sut y gellid cynyddu manteision economaidd i Gymru drwy ddatblygu'r gadwyn gyflenwi a chymorth arall wedi'i dargedu.

32. Mae yna le hefyd i'r broses gaffael godi ansawdd yn y gadwyn gyflenwi hefyd a chyflawni yn erbyn amcanion eraill Llywodraeth Cymru, er enghraifft trwy hyrwyddo cyflog byw gan gyflogwyr a defnyddio 'cymalau cymdeithasol' i ychwanegu rhagor o werth cymdeithasol.

**Defnyddio caffael i ysgogi arloesedd ym maes technoleg**

33. Mae model Menter Ymchwil Busnesau Bach yn defnyddio'r cysyniad o heriau sydd angen ateb i ysgogi arloesedd. Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn defnyddio dull caffael cyn-gystadleuol i weithio gyda phartneriaid o fyd diwydiant ar ddichonoldeb, technoleg arddangoswr a phrototeip sy'n mynd i'r afael â phroblemau hysbys.

34. Yn 2013 a 2014, cyflwynwyd hon fel rhaglen ar draws sectorau, yn cael ei hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Strategaeth Technoleg y DU (newydd ei ailenwi'n Innovate UK). Dyfarnwyd dau brosiect i GIG Cymru, drwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, y ddau yn gweithio gyda nifer o fentrau bychain yng Nghymru ar arloesedd ym myd technoleg.

## C) GALLU'R GIG I DDEFNYDDIO TECHNOLEG ER BUDD ECONOMAIDD

35. Mae nifer o adolygiadau a mentrau diweddar wedi ystyried sut y gallai'r GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru wneud gwell defnydd o dechnoleg ac arloesedd, er mwyn gwella gwasanaethau gofal iechyd a chyfrannu at dwf economaidd.

**Mabwysiadu a Gwaredu Technoleg**

36. I gefnogi sefydliadau'r GIG, cyhoeddodd Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles nifer o adroddiadau ac argymhellion, yn cynnwys dogfen "Canllaw ar Systemau Mabwysiadu Technoleg". Mae hwn yn argymell dull mwy systematig o nodi, arfarnu a mabwysiadu technoleg ledled GIG Cymru. Mae'r canllaw hwn eisoes wedi'i gynnwys ym mhroses gynllunio GIG Cymru a'r cynlluniau tymor canolig integredig a fabwysiadwyd gan sefydliadau iechyd.

37. Yn yr un maes, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrthi'n cynnal ymchwiliad i fynediad i dechnoleg feddygol yng Nghymru. Mae'r Gweinidog Iechyd wedi darparu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i'r pwyllgor ar fabwysiadu technoleg,

ac ar gynlluniau i gefnogi ymchwil a datblygu technoleg gan NISCHR (Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd). Disgwylir i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ym mis Tachwedd.

38. Er bod pwysigrwydd mabwysiadu technoleg yn cael ei gydnabod yn eang, mae'r dull gofal iechyd darbodus a nodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn amlygu'r angen i waredu technoleg ddiangen pan ystyrir nad yw'n effeithiol mwyach neu pan fo wedi'i disodli gan gynhyrchion a gwasanaethau gwell. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae mabwysiadu a gwaredu technoleg yn gofyn hefyd am ailfodelu gwasanaethau a llwybrau gofal, newid i systemau digidol newydd, neu newidiadau i'r ffordd o gasglu, rheoli a defnyddio gwybodaeth glinigol.

**Cyllid Technoleg**

39. Cronfa gwerth £9.5 miliwn o bunnoedd yw'r Gronfa Technoleg Iechyd a Theleiechyd a ddyfernir drwy broses gystadleuol i brosiectau a fydd yn defnyddio technoleg i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn lleoliadau heblaw ysbytai. Mae nifer o brosiectau'n cynnwys gwaith partneriaeth a strategol rhwng GIG Cymru a diwydiant.

40. Bydd y sector preifat, y trydydd sector a chyfraniadau academaidd yn darparu arian cyfatebol yn llawn. Mae'r Gronfa yn darparu dull cyllido i brofi technolegau newydd ac arloesol, i ddefnyddio technolegau cyfredol mewn ffyrdd newydd ac i gyflymu'r broses o fabwysiadu technoleg lwyddiannus.

## CASGLIADAU

### Cyfraniad economaidd GIG Cymru

41. GIG Cymru yw cyflogwr mwyaf Cymru ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol iawn i economi Cymru.

42. Mae GIG Cymru yn gwneud cyfraniad pwysig, tebyg i fusnes angor, ac yn dangos ymrwymiad cynyddol i weithio gydag academyddion a phartneriaid busnes i gefnogi arloesedd.

### Caffael

43. Mae GIG Cymru'n caffael llawer iawn o nwyddau a gwasanaethau. Bydd adolygiad cyfredol o gaffael yn cyflawni argymhellion ar gynyddu cyfran y gwariant a gedwir yng Nghymru a defnyddio'r gadwyn gyflenwi i gyfrannu at greu swyddi o ansawdd, twf a chyfoeth yng Nghymru.

44. Mae GIG Cymru hefyd yn defnyddio caffael fel dull o ysgogi arloesedd ym myd technoleg, drwy raglenni fel Menter Ymchwil Busnesau Bach.

### Gallu'r GIG i ddefnyddio technoleg er budd economaidd

45. Mae'r GIG yn mabwysiadu dull systematig o fabwysiadu a gwaredu technoleg, a fydd yn galluogi gwaith partneriaeth gwell rhwng y GIG a diwydiant.

46. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid wedi'i dargedu ar gyfer mabwysiadu a datblygu technoleg newydd, drwy gynlluniau fel Cronfa Technoleg Iechyd a Theleiechyd.